Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# **Briff Ymchwil:**
# Yr wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb Ewropeaidd



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6315**
E-bost: **Nigel.Barwise@assembly.wales**
Twitter: **@SeneddResearch**
Blog: **SeneddResearch.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Briff Ymchwil

Yr wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb Ewropeaidd

**Awdur: Nigel Barwise**
**Dyddiad:** Mehefin 2018
**Rhif yr ymholiad:** 18-039

# Contents

**1. Cyflwyniad ........ 1**

**2. Datblygiadau yng Nghymru ........ 1**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru ........ 1

Llywodraeth Cymru ........ 3

Newyddion ........ 3

**3. Datblygiadau o'r Undeb Ewropeaidd ........ 4**

Y Cyngor Ewropeaidd ........ 4

Y Comisiwn Ewropeaidd ........ 5

Senedd Ewrop ........ 6

Newyddion ........ 7

**4. Datblygiadau yn y Deyrnas Unedig ........ 7**

Llywodraeth y Deyrnas Unedig ........ 7

Tŷ'r Cyffredin ........ 9

Pwyllgorau ........ 10

Amddiffyn: ........ 10

Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: ........ 11

Yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: ........ 11

Archwilio'r Amgylchedd: ........ 11

Craffu ar Ewrop: ........ 11

Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: ........ 12

Materion Tramor: ........ 12

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: ........ 12

Materion Cartref: ........ 12

Masnach Ryngwladol: ........ 12

Gogledd Iwerddon: ........ 13

Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol: ........ 14

Materion yr Alban: ........ 14

Trafnidiaeth: 14

Y Trysorlys: 14

Y Pwyllgor Materion Cymreig: 14

Tŷ'r Arglwyddi 15

Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol: 15

Pwyllgor Dethol yr Undeb Ewropeaidd: 16

Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr Undeb Ewropeaidd: 16

Is-bwyllgor Materion Allanol yr Undeb Ewropeaidd: 16

Is-bwyllgor Materion Ariannol yr Undeb Ewropeaidd: 17

Is-bwyllgor Materion Cartref yr Undeb Ewropeaidd: 17

Is-bwyllgor Marchnad Fewnol yr Undeb Ewropeaidd: 17

Is-bwyllgor Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd: 17

Cysylltiadau rhyngwladol: 17

Cysylltiadau: 18

Newyddion 18

**5. Yr Alban 19**

Senedd yr Alban 19

Llywodraeth yr Alban 20

**6. Gogledd Iwerddon 21**

**7. Cysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig ac Iwerddon 21**

**8. Adroddiadau a gyhoeddwyd 21**

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin 21

Eraill 21

# 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau sy'n berthnasol i Gymru o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n cynnwys adrannau ar waith y Cynulliad a Llywodraeth Cymru; ar lefel yr Undeb Ewropeaidd; y Deyrnas Unedig; yr Alban ac Iwerddon. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 9 Mai a 6 Mehefin 2018, er y cyfeirir at ddigwyddiadau diweddarach lle mae gwybodaeth ar gael ar adeg y drafftio terfynol.

# 2. Datblygiadau yng Nghymru

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (MADY) yw prif bwyllgor y Cynulliad ar gyfer cydgysylltu gweithgareddau'r Pwyllgorau sy'n gysylltiedig â Brexit.

Mae'r Pwyllgor hwn ar hyn o bryd yn ymgymryd ag ymchwiliad i Berthynas Cymru â'r Undeb Ewropeaidd yn y Dyfodol ac ymchwiliad i gyfraith yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru: Beth sy'n digwydd yn ystod y Cyfnod Pontio? Lansiodd y Pwyllgor ei adroddiad Rhan 1 ar **Berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol** ar 27 Mawrth ym Mrwsel, a thrafodwyd yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mai. Yn seiliedig ar farn amrywiaeth eang o randdeiliaid yng Nghymru, mae'r Adroddiad yn nodi barn y Pwyllgor ar yr hyn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ei flaenoriaethu yn y berthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.

Dyma sesiynau diweddaraf y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol:

- 14 Mai: Sesiwn graffu ar waith Prif Weinidog Cymru **Trawsgrifiad**.
- 21 Mai: Cynhaliodd y Pwyllgor ddwy sesiwn dystiolaeth ar Amaethyddiaeth a Brexit. **Trawsgrifiad**.
- 4 Mehefin: Cynhaliodd y Pwyllgor ddwy sesiwn dystiolaeth ar gyfraith Ewrop a chyfnod pontio Brexit. **Trawsgrifiad**.

Cyhoeddir blogiau'r Gwasanaeth Ymchwil ar **Pigion**. Y blogiau Brexit diweddaraf yw **Amcangyfrif llinell amser trafodaethau Brexit**; **Y Cynulliad i gynnal dadl ar**

**Berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol**; **Undeb Tollau: y Datblygiadau Diweddaraf**; **Cyhoeddiad Newydd: Adroddiad Monitro Brexit: Yr Amgylchedd**; ac **Adroddiad Monitro Trafodaethau ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd**.

Arall

15 Mai: Dadl y Cyfarfod Llawn ar **Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**.

23 Mai: Dadl y Cyfarfod Llawn ar **Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: 'Perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol. Rhan un: safbwynt o Gymru'**.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi lansio **ymchwiliad i'r paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd**. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 11 Mai 2018, a chynhaliwyd digwyddiad i randdeiliaid ar 7 Mehefin.

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn cynnal ymchwiliad i fframweithiau cyffredin y Deyrnas Unedig a fydd eu hangen yn absenoldeb cyfraith yr Undeb Ewropeaidd pan fyddwn yn gadael yr Undeb Ewropeaidd - **Fframweithiau cyffredin y Deyrnas Unedig ar amaethyddiaeth a'r amgylchedd**. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ymateb i ymgynghoriad Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar '**Health and Harmony: the future for food, farming and the environment in a Green Brexit**'. Mae'r Pwyllgor wedi lansio ymchwiliad i **Effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru**. Mae'r alwad am dystiolaeth yn cau ar 18 Mehefin 2018. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn cwblhau gwaith ar **Gorff llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit**.

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal **ymchwiliad** i Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Cyhoeddodd y Pwyllgor alwad am dystiolaeth a ddaeth i ben ar 8 Mehefin 2018.

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cyhoeddi adroddiadau ar Is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae modd dod o hyd i'r rhain ar **dudalennau gwe'r Pwyllgor**. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymgymryd ag ymchwiliad i **Bwerau ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth - materion gweithredol**

## Llywodraeth Cymru

9 Mai: **£22.5m yn ychwanegol o gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd i hybu sgiliau ar Ddiwrnod Ewrop**.

9 Mai: **"Angen rhoi'r gorau i chwarae gêm wleidyddol â Brexit" yn ôl y Prif Weinidog Carwyn Jones**.

14 Mai: **"Nid yw clefydau'n ystyried ffiniau"** – Yr Ysgrifennydd Cyllid, Mark Drakeford.

15 Mai: **Yr Ysgrifennydd Cyllid, Mark Drakeford, yn gosod blaenoriaethau Cymru ar gyfer Brexit**.

23 Mai: **Mynediad i farchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit ar agenda Cynhadledd Allforio**.

24 Mai: **'Byddwn yn parhau i ymladd am fargen da i Gymru'** – Yr Ysgrifennydd Cyllid, Mark Drakeford.

30 Mai: **Buddsoddiad o £3.2 miliwn, gyda chymorth gan yr Undeb Ewropeaidd, i ddatblygu technoleg gwbl arloesol**.

31 Mai: **Y Cwnsler Cyffredinol yn ymweld ag Iwerddon i gasglu gwybodaeth** - Heddiw, mae'r Cwnsler Cyffredinol, Jeremy Miles AC, yn Nulyn i ddysgu mwy am ymdrechion Llywodraeth Iwerddon i wneud deddfwriaeth Iwerddon yn fwy hygyrch ac i drafod goblygiadau cyfreithiol Brexit.

6 Mehefin: **Gallai bwlch cyllido Brexit gael effaith ar golegau Cymru**.

## Newyddion

9 May: **Ymateb NFU Cymru i ymgynghoriad Iechyd a Chytgord Defra**.

9 May: **Ymateb NFU Cymru i ddatganiad Ysgrifennydd y Cabinet**.

10 Mai: **Y CLA yn rhybuddio am ddryswch a pherygl o gymhlethdod yn sgil corff 'Brexit Gwyrdd' newydd**.

16 Mai: **Masnach ddidrafferth â'r Undeb Ewropeaidd yn hanfodol i sector Da Byw yr Undeb Ewropeaidd, medd Undebau Ffermio'r Deyrnas Unedig** (NFU Cymru)

23 Mai: **Ysgrifennydd Brexit yr wrthblaid yn clywed pam mae cyllid teg i ffermydd (#FairFarmFunding) yn hanfodol ar gyfer goroesiad y Gymru wledig** (Undeb Amaethwyr Cymru)

23 Mai: **Undeb Amaethwyr Cymru yn ymateb yn ofalus i ddatganiad Llywodraeth Cymru ar yr amserlen ôl-Brexit**.

23 Mai: **Mae'n rhaid i bolisi ffermydd ôl-Brexit ganolbwyntio ar ffermwyr gweithredol** (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)

23 Mai: **Taliad ar gyfer model nwyddau cyhoeddus yn Lloegr yn cael ei nodi gan y CLA**.

6 Mehefin: **Aelodau NFU Cymru Sir Fynwy yn cwrdd â David Davies AS** i drafod datblygiadau diweddaraf trafodaethau Brexit.

6 Mehefin: **ASau yn rhoi rhybudd allweddol ynghylch cyfnod pontio Brexit i fyd Ffermio** (CLA)

6 Mehefin: **Y diwydiant yn galw ar y Llywodraeth i ddatrys llanast Stiwardiaeth Cefn Gwlad** (CLA)

# 3. Datblygiadau o'r Undeb Ewropeaidd

## Y Cyngor Ewropeaidd

7 Mai: **Rhaglen ddangosol – Cynghorau Materion Cyffredinol a Materion Cyffredinol (Erthygl 50)**,

14 Mai. **Papur cefndir y Cyngor Materion Cyffredinol (Erthygl 50)**

22 Mai: **Y Cyngor yn rhoi sêl bendith ar drafodaethau masnach gydag Awstralia a Seland Newydd**.

22 Mai: **Y Cyngor yn mabwysiadu ymagwedd newydd at drafod a chytuno ar gytundebau masnach yr Undeb Ewropeaidd**.

22 Mai: **Dyddiadau etholiad Senedd Ewrop: Y Cyngor yn cadarnhau 23 i 26 Mai 2019**.

22 Mai: **Ffermio organig: mabwysiadu rheolau newydd yr Undeb Ewropeaidd**.

23 Mai: **Casgliadau 49fed cyfarfod Cyngor Ardal Economaidd Ewrop**.

## Y Comisiwn Ewropeaidd

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi 66 o '**Nodiadau parodrwydd ar gyfer Brexit**' ynghylch goblygiadau cyfreithiol ac ymarferol ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd – yn amodol ar unrhyw drefniant trosiannol a allai gael ei gynnwys mewn cytundeb ymadael posibl.

9 Mai: **12 o gwestiynau ynghylch Dyfodol Ewrop: Y Comisiwn yn Lansio Ymgynghoriad Ar-Lein i Ddinasyddion**.

14 Mai: **Araith gan Michel Barnier yng nghynhadledd Sefydliad yr Undeb Ewropeaidd ar Astudiaethau Diogelwch**.

15 Mai: **Sleid ar y Fframwaith Posibl rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig ar gyfer Trafodaethau'r Bartneriaeth yn y Dyfodol**.

15 Mai: **Sefydliad Masnach y Byd yn gwrthod y mwyafrif helaeth o hawliadau'r Unol Daleithiau yn anghydfod Airbus**.

17 Mai: **Pecyn tresbasiadau mis Mai: penderfyniadau allweddol**. Cyfeirir at y Deyrnas Unedig, gan gynnwys (gydag eraill) **atgyfeiriad at Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd am ansawdd aer**.

18 Mai: **Rhaglen o drafodaethau ar Erthygl 50 rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig ar gyfer 22-24 Mai 2018**.

22 Mai: **Sleid ar reolaethau tollau**.

22 Mai: **Rheolau newydd ar gyfer cynhyrchu organig: Datganiad gan y Comisiynydd Phil Hogan**.

22 Mai: **Y Comisiwn yn croesawu'r sêl bendith i ddechrau trafodaethau masnach gydag Awstralia a Seland Newydd**.

23 Mai: **Pecyn Gwanwyn Semester Ewropeaidd 2018**: Y Comisiwn yn cyhoeddi argymhellion ar gyfer Aelod-wladwriaethau i gyflawni twf cynaliadwy, cynhwysol a hirdymor. **Taflen wybodaeth: Argymhelliad Penodol y Deyrnas Unedig.**

23 Mai. **Cyllideb yr Undeb Ewropeaidd 2019**: Y Comisiwn yn cynnig cyllideb sy'n canolbwyntio ar barhad a chyflawni – o ran twf, cydnerthedd, diogelwch. **Sesiwn holi ac ateb**.

26 Mai: **Araith gan Michel Barnier yn 28ain Cyngres Ffederasiwn Rhyngwladol Cyfraith Ewrop (FIDE)**.

28 Mai: **Dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn Aelod-wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd** - Mae 4% o ddinasyddion oedran gweithio yr Undeb Ewropeaidd yn byw yn Aelod-wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd – gyda graddedigion trydyddol yn fwy symudol na gweddill y boblogaeth (Eurostat)

31 Mai: **Y Comisiwn Ewropeaidd yn ymateb i gyfyngiadau Unol Daleithiau America ar ddur ac alwminiwm sy'n effeithio ar yr Undeb Ewropeaidd**.

1 Mehefin: **Cyllideb yr Undeb Ewropeaidd: y Polisi Amaethyddol Cyffredin y tu hwnt i 2020**. **Taflen ffeithiau**.

1 Mehefin: **Yr Undeb Ewropeaidd yn lansio achos Sefydliad Masnach y Byd yn erbyn trosglwyddiadau technoleg annheg Tsieina**.

4 Mehefin: **Rhaglen o drafodaethau Erthygl 50 rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig ar gyfer 5-8 Mehefin 2018**.

## Senedd Ewrop

16 Mai: **Polisi ffermydd yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol: ASEau Amaeth yn annog cyllid teg, heb ail-wladoli**.

23 Mai: **Cefnogaeth y Deyrnas Unedig i'r Undeb Ewropeaidd yn parhau'n sefydlog, er bod Brexit yn y cefndir**.

30 Mai: **Offer amddiffyn cadarnach yn erbyn mewnforion annheg i warchod swyddi a diwydiant yr Undeb Ewropeaidd**.

30 Mai: **Dyfodol ffermio'r Undeb Ewropeaidd: ASEau yn gwthio am bolisi cyffredin modern gyda chyllid teg**.

31 Mai: Tariffau Unol Daleithiau America ar Ddur ac Alwminiwm: **Datganiad gan yr Arlywydd Tajani**; **Datganiad Cadeirydd y Pwyllgor Masnach**.

2 Mehefin: **8,000 o bobl ifanc yn Senedd Ewrop yn Strasbwrg: "chwa o awyr iach i ddemocratiaeth yr Undeb Ewropeaidd"**. Llywydd Senedd Ewrop: **"Mae eich syniadau'n allweddol wrth lunio dyfodol yr Undeb Ewropeaidd"**.

4 Mehefin: **Rheolau newydd ar amodau gwaith gyrwyr a chystadleuaeth deg o ran cludiant ar y ffyrdd**.

5 Mehefin: **Trafodaeth yn Nhŷ Ewrop: Brexit a Bwyd**. Cynhaliodd Swyddfa Cyswllt Senedd Ewrop yn y Deyrnas Unedig ddadl yn Llundain gyda'r nod o ddeall goblygiadau Brexit ar y diwydiant bwyd.

### Newyddion

18 Mai: **Y cloc yn ticio ar hediadau ôl-Brexit yn ôl un o swyddogion yr Undeb Ewropeaidd** (Reuters).

24 Mai: **Canlyniadau Sefydliadol 'Brexit Caled**' (Adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol). **Ni ddylai ASEau [a barnwyr] Prydain roi'r gorau iddi ar ddiwrnod Brexit, yn ôl adroddiad cyfreithiol y Senedd** (Politico)

30 Mai: **Norwy yn Ewrop - Strategaeth Llywodraeth Norwy ar gyfer cydweithredu â'r Undeb Ewropeaidd 2018-2021** (Llywodraeth Norwy)

31 Mai: **"Gwnaed yn yr Almaen" budd yn sgil Brexit** - Buddion y label "Gwnaed yn yr Almaen", yn enwedig yn sgil Brexit – yn gryno, "I gwmnïau o'r Almaen, gallai Brexit ddod yn fusnes proffidiol iawn, gyda llawer o allforion yr Undeb Ewropeaidd yn cael eu hailddosbarthu. Mae hyn yn arbennig o wir am gynhyrchion lle mae'r Almaenwyr yn gryf" (Welt, yn Almaeneg)

6 Mehefin: **Prif Weinidog Norwy wrth y Deyrnas Unedig: Pam fyddech chi eisiau ein bargen ni â'r Undeb Ewropeaidd?** (Politico)

6 Mehefin: **Cynghori busnesau Ewrop i osgoi defnyddio cydrannau o Brydain cyn Brexit** – Y diwydiant ceir yn ofni "trychineb" wrth i'r Undeb Ewropeaidd rybuddio allforwyr y gallent golli mynediad at fasnach rydd os ydynt yn defnyddio cydrannau'r Deyrnas Unedig ar ôl Brexit (Sky News)

## 4. Datblygiadau yn y Deyrnas Unedig

### Llywodraeth y Deyrnas Unedig

9 - 24 Mai: Gweledigaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Fframweithiau Partneriaeth: **Diogelwch**; **Diogelu data**; **Gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesi**; **Economaidd**.

17 Mai: Cynhaliodd y Prif Weinidog Theresa May gyfarfodydd yng Nghynhadledd y Balcanau Gorllewinol â'r **Arlywydd Jean-Claude Juncker a'r Arlywydd Donald Tusk a chyda'r Taoiseach Leo Varadkar o Iwerddon**.

18 Mai: **Rhaglen: Trafodaethau Erthygl 50 rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig, 22-24 Mai**.

21 Mai: **Araith y Prif Weinidog ar wyddoniaeth a'r Strategaeth Ddiwydiannol fodern**.

23 Mai: Croesawodd y Prif Weinidog y **Prif Weinidog Michel o Wlad Belg** am sgyrsiau yn Downing Street.

23 May: **Ymateb y Llywodraeth i adroddiad ar Brexit a meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a sylweddau o darddiad dynol**.

23 Mai: **Cynllun adrannol unigol yr Adran ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**.

24 Mai: **Uwchgynhadledd Busnes Ewrop: Araith y Canghellor**.

24 Mai: **Datganiad Fforwm Gweinidogol (Trafodaethau'r Undeb Ewropeaidd)**. Roedd Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio, yn bresennol.

24 Mai: **Poblogaeth y Deyrnas Unedig yn ôl gwlad geni a chenedligrwydd: 2017** (Swyddfa Ystadegau Gwladol)

25 Mai: Nodiadau technegol: **Cyfranogiad y Deyrnas Unedig yn Galileo**; **diogelwch, gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol**; **ymgynghori a chydweithrediad ar ddiogelwch allanol**, **cyfnewid a diogelu gwybodaeth gyfrinachol**.

24 Mai: **O adenydd i'r gweithle: y llwybr i leihau aildroseddu** (yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder). **'Gall carcharorion lenwi'r bwlch staff Brexit,' meddai'r Gweinidog Cyfiawnder** (Express)

25 Mai: **Galwad y Prif Weinidog a'r Arglwydd Ahmad gydag arweinwyr y Tiriogaethau Tramor** - cofrestri cyhoeddus o berchnogaeth fuddiol.

30 Mai: **Siaradodd y Prif Weinidog Theresa May â chynrychiolwyr o Ford Gron Diwydianwyr Ewrop**. **Brexit: Busnesau mawr yn rhybuddio Theresa May bod amser yn mynd yn brin** (BBC)

3 Mehefin: **Galwad y Prif Weinidog â Phrif Weinidog yr Eidal, Guiseppe Conte**.

4 Mehefin: **Rhaglen: trafodaethau Erthygl 50 rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig, 5-8 Mehefin**.

4 Mehefin: **Siaradodd y Prif Weinidog Theresa May â Phrif Weinidog Sbaen, Pedro Sánchez**.

4 Mehefin: **Cynhaliodd y Prif Weinidog Theresa May gyfarfod o'i Chyngor Cynghori ar Fusnes**.

5 Mehefin: **Cyd-Gyngor Gweinidogol (Trafodaethau'r Undeb Ewropeaidd ynghylch Gibraltar)**.

## Tŷ'r Cyffredin

**Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) fel y'i diwygiwyd yn y pwyllgor**.

**Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2017-19: Crynodeb o'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin** - Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.

**Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): cymal 7 "y pŵer cywiro"** - Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.

**Brexit: 'cynnydd digonol' i symud i ran 2** - Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.

**Brexit: y bil ymadael** - Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.

9 Mai: Cwestiynau Gogledd Iwerddon: **Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Archwiliadau ar y Ffin**; **Gadael yr Undeb Ewropeaidd**.

9 Mai: **Cwestiynau'r Prif Weinidog**.

9 Mai: Darlleniad cyntaf **Cytundeb Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Pleidlais Gyhoeddus)**.

14 Mai: Ail ddarlleniad y **Bil Trwyddedau Cludo a Chofrestru Trelars [Tŷ'r Arglwyddi]**. Bil wedi ei draddodi i Bwyllgor Bil Cyhoeddus.

16 Mai: Cwestiynau Swyddfa'r Cabinet: **Uniondeb Cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig**.

9 Mai: **Cwestiynau'r Prif Weinidog**.

16 Mai: Dadl ar **Adael yr Undeb Ewropeaidd: Tollau**.

17 Mai: Cwestiynau Masnach Ryngwladol: **Tariffau Unol Daleithiau America: Dur ac Alwminiwm**; **Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Hawliau Merched**; **Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Diwydiant Tecstilau a Ffasiwn**; **Hybu Masnach Rydd**;

**Buddsoddiad Uniongyrchol Tramor**; **Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Bargeinion Masnach Trydedd Wlad**; **Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Mynediad Ffafriol at y Farchnad**; **Gwledydd y Gymanwlad: Cytundebau Masnach**; **Cytundebau Masnach Rydd yr Undeb Ewropeaidd**.

17 Mai: Cwestiynau Merched a Chydraddoldeb: **Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Effaith ar Fenywod**.

22 Mai: Dadl Neuadd San Steffan: **Diwydiant Modurol y Deyrnas Unedig: Colli Swyddi**.

23 Mai: **Cwestiynau'r Prif Weinidog**

23 Mai: Dadl Neuadd San Steffan: **Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Addysg Uwch yng Nghymru**.

4 Mehefin: Datganiad a dadl ar **Dariffau Dur ac Alwminiwm yr Unol Daleithiau**.

5 Mehefin: Cwestiynau cyfiawnder: **Gadael yr Undeb Ewropeaidd: System Gyfreithiol y Deyrnas Unedig**.

6 Mehefin: Cwestiynau'r Alban ar Adael yr Undeb Ewropeaidd: **Twf Economaidd**; **Diwydiant Wisgi'r Alban**; **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol**; **Fframweithiau Cyffredin ar gyfer Busnes**.

6 Mehefin: **Cwestiynau'r Prif Weinidog**.

## Pwyllgorau

### Amddiffyn:

15 Mai: Papur sefyllfa'r Llywodraeth ynghylch Brexit: Polisi tramor, amddiffyn a datblygu: ymchwiliad papur i bartneriaeth yn y dyfodol. **Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn**.

17 Mai: **Llythyr at David Davis ar y Fframwaith ar gyfer Partneriaeth Ddiogelwch y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd**.

29 Mai: **Llythyr gan David Davis ar y Fframwaith ar gyfer Partneriaeth Ddiogelwch y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd**.

## Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

25 Mai: **Y Cadeirydd yn croesawu GDPR yn dod i rym**.

## Yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig:

14 Mai: **Lansio ymchwiliad Brand Britain**.

16 Mai: **Masnach mewn Siwgr ôl-Brexit - Cyflwyniad gan Adran Materion Tramor a Masnach Awstralia**.

6 Mehefin: **Y Pwyllgor yn galw am gronfa ffermio wedi ei neilltuo ar ôl Brexit** - Adroddiad: **Dyfodol bwyd, ffermio a'r amgylchedd**.

6 Mehefin: **Holi'r Gweinidog ynghylch cwotâu tariff yr Undeb Ewropeaidd, bargeinion masnach a'r diwydiant siwgr**.

13 Mehefin: Sesiwn Dystiolaeth ar waith Defra.

## Archwilio'r Amgylchedd:

8 Mai: – **Ansicrwydd yn parhau dros fisa teithio posibl i'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit** – Adroddiad: **Dogfennau a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 2 Mai 2018**.

## Craffu ar Ewrop:

16 Mai: **Holi Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**. **Trawsgrifiad**.

16 Mai: **Lansio ymchwiliad i Ddatrys Anghydfodau a Gorfodaeth yn y Cytundeb Ymadael drafft**.

22 Mai: **Archwilio Dileu'r Bwlch Tâl rhwng y Rhyweddau ar ôl Brexit yn adroddiad y Pwyllgor**. Adroddiad: **Dogfennau a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 16 Mai 2018**.

23 Mai: **Llythyr gan Oliver Robbins, Ymgynghorydd Ewrop y Prif Weinidog, at y Cadeirydd**.

23 Mai: **Dogfennau a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 23 Mai 2018**.

6 Mehefin: Sesiwn dystiolaeth ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

13 Mehefin: Sesiwn dystiolaeth ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

## Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd:

9 Mai: **Ymchwilio i oblygiadau Brexit ar gyfer data a phrosiect Galileo**.

16 Mai: **Archwilio dyfodol gwyddoniaeth, ymchwil ac Addysg Uwch ar ôl Brexit**. **Trawsgrifiad**.

18 Mai: Cynnydd trafodaethau'r Deyrnas Unedig ar ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Rhagfyr 2017 - Mawrth 2018): **Ymateb y Llywodraeth i Drydydd Adroddiad y Pwyllgor**.

22 Mai: **Llythyr gan CThEM ar y Trefniadau Tollau Syml Iawn**.

23 Mai: **Craffu ar weithdrefnau seneddol ar gyfer gweithredu Brexit**. **Trawsgrifiad**.

24 Mai: **Ymestyn yr undeb tollau yw'r unig ddewis ymarferol, medd y Pwyllgor**. Adroddiad: **Cynnydd trafodaethau'r Deyrnas Unedig ar ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Mawrth - Mai 2018)**.

6 Mehefin: **Archwilio hawliau dinasyddion a Brexit**.

## Materion Tramor:

9 Mai: Trafodaethau Erthygl 50: **Goblygiadau "Dim Bargen": Ymateb y Llywodraeth i Nawfed Adroddiad y Pwyllgor**.

15 Mai: Sesiwn dystiolaeth Prydain Fyd-eang - **trawsgrifiad**.

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

16 Mai: **Llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Iechyd yn ymwneud ag adroddiad y Pwyllgor ar y gweithlu nyrsio**.

## Materion Cartref:

22 Mai: **Byd busnes, undebau llafur ac academyddion yn trafod ymfudo ôl-Brexit**. **Trawsgrifiad**.

25 Mai: **Y Llywodraeth yn ymateb i adroddiad y Pwyllgor** - **Brexit: Mewnfudo**.

## Masnach Ryngwladol:

9 Mai: **Y Pwyllgor yn clywed gan fewnforwyr cynnyrch ffres**. **Trawsgrifiad**.

10 Mai: **Llythyr gan Liam Fox ynghylch recriwtio Cadeirydd anweithredol yr Awdurdod Cymhorthion Masnach**.

11 Mai: **Ymchwiliad newydd: Tryloywder a Chraffu ar Bolisi Masnach y Deyrnas Unedig**.

15 Mai: **Ymateb y Llywodraeth i gymhwyso cytundebau masnach yr Undeb Ewropeaidd yn barhaus**. **Sylwadau'r Cadeirydd**.

23 Mai: **Archwilio masnach rhwng y Deyrnas Unedig, Awstralia a Seland Newydd** - llaeth a chig, gan gynnwys Hybu Cig Cymru. **Trawsgrifiad**.

23 Mai: **Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan yr Athro Alasdair Smith** - Beth sydd o'i le ar ddadansoddiad Economegwyr dros Fasnach Deg o Brexit?

6 Mehefin: **Masnach a'r Gymanwlad: archwilio gwledydd sy'n datblygu**.

## Gogledd Iwerddon:

**Ymgynghoriad ar ymholiad Cytundeb Tŷ Stormont**.

9 Mai: Tystiolaeth ysgrifenedig am Amaethyddiaeth gan **CBI Gogledd Iwerddon**, **Cymdeithas Tir Âr Ulster**.

16 Mai: Sesiwn dystiolaeth gyda George Eustace ar Brexit a Gogledd Iwerddon: Pysgodfeydd. **Trawsgrifiad**.

22 Mai: **Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Athro Richard A Barnes, Prifysgol Hull - Pysgodfeydd**.

22 Mai: **Mae'n rhaid i Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon weithredu ar bolisi ac ailgychwyn trafodaethau** - Adroddiad: **Datganoli a democratiaeth yng Ngogledd Iwerddon - delio â'r diffyg**.

22 Mai: **Adroddiad ar Sefyllfa Gogledd Iwerddon - Mai 2018**.

22 Mai: Ymchwiliad i brosesau pasbort presennol. **Trawsgrifiad**.

25 Mai: **Ymchwiliad i'r Ymgynghoriad ar Gytundeb Tŷ Stormont**.

6 Mehefin: Archwilio heriau a chyfleoedd sy'n wynebu sector amaethyddol Gogledd Iwerddon. Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan **Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**.

13 Mehefin: Sesiwn Dystiolaeth ar Brexit a Gogledd Iwerddon: Amaethyddiaeth.

14 Mehefin: Sesiwn dystiolaeth ar Brexit a Gogledd Iwerddon: Pysgodfeydd.

### Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol:

22 Mai: **Maer Gorllewin Canolbarth Lloegr ac Arbenigwyr ar Ogledd Iwerddon yn trafod goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd ar ddatganoli yn y Deyrnas Unedig**. **Trawsgrifiad**.

4 Mehefin: **Maer Manceinion Fwyaf yn trafod goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer datganoli yn y Deyrnas Unedig**.

### Materion yr Alban:

5 Mehefin: **Arbenigwyr polisi masnach ryngwladol yn trafod blaenoriaethau masnach yr Alban**.

### Trafnidiaeth:

4 Mehefin: Ymchwiliad Cludo Nwyddau a Brexit: tystiolaeth ysgrifenedig: **CargoLogicAir Cyf.**; **Port of Tilbury**.

### Y Trysorlys:

14 Mai: **Cais i CThEM roi tystiolaeth lafar am gynllun tollau'r Llywodraeth** – "Mae'r Daily Telegraph heddiw wedi dweud bod CThEM o'r farn bod 'cynllun Theresa May ar gyfer partneriaeth dollau gyda'r Undeb Ewropeaidd yn "anhyfyw"'.

23 Mai: Perthynas economaidd y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd - tystiolaeth CThEM. **Trawsgrifiad**.

5 Mehefin: Sesiwn ar berthynas economaidd y Deyrnas Unedig gyda'r Undeb Ewropeaidd, gyda thystiolaeth gan borthladdoedd Calais a Zeebrugge, Getlink (Eurotunnel) a CThEM. Tystiolaeth ysgrifenedig: **CThEM**; **Porthladd Zeebrugge**; **Consortiwm Cynnyrch Ffres**.

### Y Pwyllgor Materion Cymreig:

8 Mai: **Archwilio barn ffermwyr ifanc ar amaethyddiaeth ar ôl Brexit**. **Trawsgrifiad**.

7 Mehefin: Sesiwn Dystiolaeth ar Brexit: amaethyddiaeth, masnach ac ail-wladoli pwerau. Yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig.

## Tŷ'r Arglwyddi

**Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi** (Briff Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi)

8 Mai: Cwestiynau ar **Brexit: Marchnad Sengl Ddigidol**.

8 Mai: Cwestiynau ar **Brexit: Y Diwydiant Logisteg**.

8 Mai: 6ed diwrnod Cyfnod Adrodd **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**.

9 Mai: Cwestiynau ar **Brexit: Gogledd Ddwyrain Lloegr**.

16 Mai: Trydydd Darlleniad **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**, Pasiwyd y Bil ac fe'i dychwelwyd i Dŷ'r Cyffredin gyda diwygiadau.

17 Mai: Cwestiynau ar **Bartneriaeth Ddiogelwch y Deyrnas Unedig – yr Undeb Ewropeaidd**.

17 Mai: Dadl ar **Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018**, cytunwyd ar y cynnig.

22 Mai: Cwestiynau ar **Brexit: Ffermwyr Defaid**.

23 Mai: Cwestiynau ar **Ogledd Iwerddon: Sefydliadau Datganoledig**.

24 Mai: Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd: **Brexit: Cystadleuaeth a Chymorth Gwladwriaethol**.

4 Mehefin: Datganiad a dadl: **Gosod Tariffau Mewnforio Dur ac Alwminiwm yn Unol Daleithiau America**.

5 Mehefin: Cwestiynau ar **Brexit: Gwyddoniaeth ac Arian Ymchwil**.

Pwyllgorau

### Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol:

17 Mai: **26ain Adroddiad Sesiwn 2017-19**: Bil Sancsiynau a Gwrth-Wyngalchu Arian [HL]: Ystyried Gwelliannau Tŷ'r Cyffredin; Gohebiaeth: Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael); Atodiad 1: Gohebiaeth: Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

4 Mehefin: **28ain Adroddiad Sesiwn 2017-19**: Mesur Sancsiynau a Gwrth-Wyngalchu Arian [HL]: Ymateb y Llywodraeth; Atodiad 2: Sancsiynau a Mesur Gwrth-Wyngalchu Arian [HL]: Ymateb y Llywodraeth.

### Pwyllgor Dethol yr Undeb Ewropeaidd:

16 Mai: **Llythyr gan David Davis - Dilyniant i Sesiwn Dystiolaeth**.

### Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr Undeb Ewropeaidd:

9 Mai: Llythyr at Gregg Clark ar **Hysbysiadau'r Comisiwn Ewropeaidd i Randdeiliaid yn ymwneud ag ynni**.

9 Mai: Yr Is-bwyllgor yn holi rhai o uwch swyddogion y Llywodraeth am **effaith bosibl Brexit ar fioddiogelwch planhigion ac anifeiliaid y Deyrnas Unedig**. **Trawsgrifiad**.

10 Mai: **Brexit: adroddiad ar brisiau ac argaeledd bwd yn cael ei gyhoeddi gan y Pwyllgor** - Adroddiad: **Brexit: prisiau ac argaeledd bwyd**.

16 Mai: **Y Pwyllgor yn holi'r Gweinidog ynghylch bioddiogelwch a Brexit**. **Trawsgrifiad**. Tystiolaeth ysgrifenedig gan **Lywodraeth yr Alban**.

18 Mai: **Un o bwyllgorau'r Undeb Ewropeaidd yn codi pryderon difrifol am ddiogelwch niwclear ôl-Brexit** - **Llythyr at Richard Harrington**.

13 Mehefin: Sesiwn Dystiolaeth ar y modd mae'r Deyrnas Unedig yn gweithredu Cyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Undeb Ewropeaidd.

### Is-bwyllgor Materion Allanol yr Undeb Ewropeaidd:

14 Mai: **Y Pwyllgor yn rhybuddio y gallai'r Deyrnas Unedig golli dylanwad ar deithiau a gweithrediadau Polisi Diogelwch ac Amddiffyn Cyffredin ar ôl Brexit** - Adroddiad: **Brexit: teithiau a gweithrediadau Polisi Diogelwch ac Amddiffyn Cyffredin**.

17 Mai: **Y Ffederasiwn Busnesau Bach yn rhoi tystiolaeth ar drefniadau tollau yn y dyfodol**. **Trawsgrifiad**. Tystiolaeth ysgrifenedig gan **y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau**. Tystiolaeth ysgrifenedig gan **Dr Peter Holmes, Darllenydd mewn Economeg, Prifysgol Sussex**.

24 Mai: **Y Pwyllgor yn holi arbenigwyr am drefniadau tollau yn y dyfodol ar ôl Brexit**. **Trawsgrifiad** a **thrawsgrifiad**.

### Is-bwyllgor Materion Ariannol yr Undeb Ewropeaidd:

16 Mai: **Tystion arbenigol yn rhoi tystiolaeth ar barhad cytundebol ôl-Brexit**. **Trawsgrifiad**.

23 Mai: **Y Pwyllgor yn archwilio rhannu data ar ôl Brexit**. **Trawsgrifiad**.

### Is-bwyllgor Materion Cartref yr Undeb Ewropeaidd:

9 Mai: **Arbenigwyr cyfreithiol yn trafod y cytundeb diogelwch arfaethedig rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd**.

15 Mai: **Holi'r Gweinidog am y cytundeb diogelwch arfaethedig rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd**.

16 Mai: **Arbenigwyr diogelwch a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn trafod y cytundeb diogelwch arfaethedig rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd**. **Trawsgrifiad** a **thrawsgrifiad**.

18 Mai: **Llythyr gan Nick Hurd ynghylch Erthygl 168 (estraddodi) y cytundeb ymadael drafft**.

### Is-bwyllgor Marchnad Fewnol yr Undeb Ewropeaidd:

9 Mai: **Llythyr gan Andrew Griffiths ynghylch cystadleuaeth a chymorth gwladwriaethol**.

### Is-bwyllgor Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd:

15 Mai: **Y Pwyllgor yn lansio ymchwiliad dilynol i gydweithrediad cyfiawnder sifil ar ôl Brexit**. **Trawsgrifiad**.

22 Mai: **Y Pwyllgor yn cynnal sesiwn ddilynol ar gydweithrediad cyfiawnder sifil ar gyfraith teulu**. **Trawsgrifiad**.

### Cysylltiadau rhyngwladol:

9 Mai: Sesiwn Dystiolaeth: Polisi tramor mewn byd lle mae'r amodau wedi newid. **Trawsgrifiad**.

6 Mehefin: **Beth yw'r farn am y Deyrnas Unedig yn yr amgylchedd rhyngwladol presennol?** - Tystiolaeth gan gyn Weinidog tramor Awstralia.

20 Mehefin: Sesiwn dystiolaeth ar bolisi tramor mewn byd lle mae'r amodau wedi newid.

Cysylltiadau:

11 Mai: **Cynnal Deuddegfed Cyfarfod Anffurfiol Grŵp Cyswllt Brexit, trafodaethau gyda'r CBI**.

## Newyddion

16 Mai: **Swyddogion y Deyrnas Unedig yn trafod cyfaddawd ar dollau Brexit** (Politico)

18 Mai: **Llywio Brexit: Tir Peryglus Mudo** (EEF)

18 Mai: **Cynlluniau newydd i sicrhau bod traffig yn parhau i lifo drwy Gaint yn ystod tarfu ar drefniadau Môr Udd** – Cyhoeddi cynlluniau i wella parcio lorïau dros nos ac i hwyluso traffig pe bai tarfu ar drefniadau Môr Udd (DfT)

20 Mai: **Japan i wthio am esemptiad ar fisa yn y fargen fasnachol ar ôl Brexit: Negodwyr yn bwriadu gwneud llai o gonsesiynau i'r Deyrnas Unedig nag y gwnaethant ym margen fasnach yr Undeb Ewropeaidd** (Reddit, o'r Financial Times)

21 Mai: **Ni fydd olrhain lorïau yn datrys problem ffin Iwerddon, yn ôl cludwyr** – Y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau yn dweud wrth David Davis nad yw'r syniad o osod dyfeisiau olrhain ar gerbydau yn mynd i weithio (Guardian)

21 Mai: **Brexit - hunllef logistaidd ar gyfer masnach dros Fôr Udd** Siambrau Masnach Llundain, Manceinion Fwyaf a Business West yn cyfarfod Eurotunnel yn Folkestone (Business West). Hefyd, o East Anglia: "**Faint o amser fydd hi'n ei gymryd i'm cynhwysydd gael ei archwilio?** Mae Porthladd Felixstowe wedi pennu amser targed ar gyfer archwiliadau o ddau ddiwrnod ar ôl glanio, gydag uchafswm o dridiau." (Awdurdod Iechyd Porthladdoedd Arfordir Suffolk)

22 Mai: **Amser i 'bennu hanfodion' ar gyfer twf y Deyrnas Unedig** (Siambrau Masnach Prydain)

22 Mai: **Prydain yn cael ei gadael ar ôl wrth i Awstralia a Seland Newydd ddechrau ar sgyrsiau masnach gyda'r Undeb Ewropeaidd yn hytrach** (Business Insider UK)

22 Mai: **Cytundeb Gwener y Groglith yn 20 oed** – fideo o ddigwyddiad gan y Sefydliad Llywodraethu.

23 Mai: **Araith Syr Ivan Rogers ym Mhrifysgol Glasgow**.

23 Mai: **Mae Brexit yn ddrwg i'n hiechyd** (British Medical Journal)

24 Mai: **Arweiniad, Trefniadau wrth gefn a Brexit** - araith a draddodwyd gan Mark Carney, Llywodraethwr Banc Lloegr, i Gymdeithas yr Economegwyr Proffesiynol.

25 Mai: **Dadansoddiad pleidleisio newydd yn datgelu y byddai ail refferendwm yn gogwyddo at Aros yn yr Undeb Ewropeaidd** (Peter Kellner yn Prospect)

27 Mai: **Rydym ar y ffordd i Car-mageddon** (John Neill, Prif Weithredwr Unipart, yn y Daily Mail)

28 Mai: **'Linguaphobia' Prydain wedi dyfnhau ers pleidlais Brexit, meddai arbenigwyr** (y Guardian yng Ngŵyl y Gelli)

28 Mai: **Sector bwyd a ffermio'r Deyrnas Unedig yn uno i bennu amcanion Brexit ar gyfer y Llywodraeth** (y Ffederasiwn Bwyd a Diod) - **Maniffesto Cadwyn Gyflenwi Bwyd ar gyfer Brexit llwyddiannus** (NFU)

29 Mai: **Diwydiant yn galw am gael gwared ar y dewis 'Max Fac'** (EEF)

5 Mehefin: **Prydain Brexit ar y ffordd i unman** (Y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau)

5 Mehefin: **Mae'n rhaid i'r Adran Masnach Ryngwladol wella ei ffordd yn sylweddol i gyflawni uchelgeisiau 'Prydain Fyd-eang'** (Maritime UK)

# 5. Yr Alban

## Senedd yr Alban

Diweddariadau Brexit Senedd yr Alban: **24 Mai**.

8 Mai: Mae'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith (DPLR) wedi cyhoeddi ei adroddiad ynghylch y **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**. **Adroddiad**

## Llywodraeth yr Alban

9 Mai: **Rhoi llais i gymunedau ar Brexit** - Cronfa o £150,000 i helpu grwpiau i dynnu sylw at eu pryderon.

9 Mai: **Nid y Diwrnod olaf i Ewrop** - Gwledydd yr Undeb Ewropeaidd 'eisiau ymgysylltu'n agosach â'r Alban'.

15 Mai: **Mae'n rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig barchu ewyllys y Senedd - Gweinidog**.

17 Mai: **Parchu barn y Senedd ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**.

17 Mai: **Cefnogaeth i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit**.

20 Mai: **Papur Gwyn Brexit** – Mae'n rhaid i weinyddiaethau datganoledig fod yn rhan o'r broses.

22 Mai: **Cryfhau cysylltiadau Ewropeaidd**.

23 Mai: **Effaith Brexit ar fwyd a diod**.

24 Mai: **Y boblogaeth nad ydynt yn hanu o Brydain yn parhau i gynyddu yn yr Alban**.

28 Mai: **Prif Weinidog yr Alban ym Mrwsel** - Cyfarfod â Phrif Negodwr yr Undeb Ewropeaidd.

31 Mai: **Sgil-effeithiau dewisiadau'r Deyrnas Unedig ar yr Alban** – Yr Ysgrifennydd Cyllid yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i newid ymagwedd at galedi, mewnfudo a Brexit.

4 Mehefin: **Adroddiadau "brawychus" am Brexit di-fargen** - Galwad am dryloywder yn sgil rybuddion am fwyd, meddyginiaeth a thanwydd.

5 Mehefin: **Mynediad at farchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd yn 'hanfodol'** - Ymchwil yn dangos y gallai Brexit fod yn niweidiol i fasnach diwydiannau bwyd môr.

6 Mehefin: **Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn "amharod i gwrdd" â chynrychiolwyr yr Alban** - Gweinidog yn dweud y dylid diwygio Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i barchu datganoli.

# 6. Gogledd Iwerddon

Mae'r Cynulliad yn cyhoeddi **cylchlythyr 'Brexit Brief' a gwybodaeth am Brexit**.

Mae gan Wasanaethau Ymchwil a Gwybodaeth y Cynulliad **Ganolbwynt Brexit**, lle ceir gwybodaeth a dolenni at adnoddau yn ymwneud â Brexit a Gogledd Iwerddon.

# 7. Cysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig ac Iwerddon

13 Mai: **Y Tánaiste Simon Coveney yn croesawu'r Gweinidog Tramor Le Drian o Ffrainc**.

23 Mai: **Y Taoiseach, Leo Varadkar, yn croesawu Prif Weinidog Gwlad Belg, Charles Michel, i Adeiladau'r Llywodraeth yn Nulyn ar gyfer cyfarfod dwyochrog heddiw**.

# 8. Adroddiadau a gyhoeddwyd

## Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

**Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2017-19: Trafodaethau Tŷ'r Cyffredin ar welliannau Tŷ'r Arglwyddi**.

**Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): diweddariad ar waith craffu ar is-ddeddfwriaeth (Atodlen 7)**.

## Eraill

**Llafurio'r cwestiwn** - dimensiwn mewnol y Deyrnas Unedig (blogiau Brexit a Chymru)

**Taro ar gydbwysedd: Glasbrint ar gyfer partneriaeth economaidd rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol** (Open Europe)

**Nid yr undeb tollau yw'r ateb cywir i gwestiynau Brexit** (Open Europe)

**Pa mor "arbennig" fydd partneriaeth ddiogelwch y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd o ddifrif?** (Open Europe)

**Y ffin yn Iwerddon ar ôl Brexit** (y Sefydliad Llywodraethu)

**Gallai gwrthod y Bil Brexit yn yr Alban fod yn ddechrau ar argyfwng cyfansoddiadol newydd** (The Conversation)

**Yr achosion o drechu bwriadau Brexit yn Nhŷ'r Arglwyddi yn gorfodi ASau i wynebu dewisiadau allweddol** (The Conversation)

**Ar ôl Brexit, bydd pobl Norwy'n wynebu cyfyng-gyngor ynghylch dyfodol 'model Norwy' gyda'r Undeb Ewropeaidd** (The Conversation)

**Ffrae Galileo: Bydd Brexit yn golygu cau'r Deyrnas Unedig allan o raglen llywio lloeren yr Undeb Ewropeaidd, ond gallai Prydain adeiladu un ei hun** (The Conversation)

**Prydeinwyr yn amharod i ymddangos fel rhan o gymuned ymfudol o Brydeinwyr yn Ffrainc - gallai Brexit newid hynny** (The Conversation)

**Sut gall Prydain osgoi ras i'r gwaelod ar ôl Brexit o ran safonau llafur** (The Conversation)

**Pôl piniwn newydd yn dangos bod pobl Prydain wedi dod yn fwy cadarnhaol ynglŷn â mewnfudo** (The Conversation)

**Sut gall Prydain barhau i fod yn uwch-bŵer 'meddal' ar ôl Brexit** (The Conversation)

**Llaw cymod** (UK in a changing Europe)

**Yng nghysgodion yr ymerodraeth: sut mae breuddwyd y byd Saesneg yn fyw o hyd** (UK in a changing Europe)

**Effaith economaidd Brexit ar fenywod** (UK in a changing Europe)

**Brexit: chwalu 10 myth am 'fodel Norwy'** (UK in a changing Europe)

**Trefniant arbennig i Ogledd Iwerddon?** (UK in a changing Europe)

**India a'r Deyrnas Unedig yn addasu i realiti Brexit** (UK in a changing Europe)

**Argyfwng, cur pen ynteu mater eilradd? - Senedd yr Alban yn gwrthod cydsynio â Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** (UK in a changing Europe)

**Brexit: goblygiadau i fywydau trawsffiniol** (UK in a changing Europe)

**Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon yn wynebu amlygrwydd tebyg i Brexit o ran masnach, yn ôl adroddiad newydd** - **Brexit ac ynys Iwerddon** (UK in a changing Europe)

**Brexit, ynys Iwerddon a Chytundeb Gwener y Groglith** (UK in a changing Europe)

**Crynodeb o sylwadau'r Gwir Anrhydeddus Owen Paterson yn y gynhadledd "Brexit ac Ynys Iwerddon"** (UK in a changing Europe)

**Mae angen i lywodraeth y Deyrnas Unedig achub y sector gofod ar ôl Brexit** (UK in a changing Europe)

**Brexit: Ôl-stop... neu yn ôl i'r dechrau** (UK in a changing Europe)

**Effaith Brexit ar swyddi ledled y Deyrnas Unedig** (UK in a changing Europe)

**Y broblem a rennir gan Dominic Cummings ac Ivan Rogers** (UK in a changing Europe)

**Gall y Deyrnas Unedig ddysgu llawer o wersi am bysgodfeydd gan wladwriaeth arfordirol nad ydynt yn yr Undeb Ewropeaidd, yn ôl adroddiad newydd** – **Llywodraethu pysgodfeydd y Deyrnas Unedig ar ôl Brexit - Gwersi o Wlad yr Iâ, Norwy ac Ynysoedd Ffaröe** (UK in a changing Europe)

**Nid oes unrhyw ragfarn gwrth-Brexit yn y Gwasanaeth Sifil** (UK in a changing Europe)

**Sut mae agweddau tuag at fewnfudo wedi newid ers Brexit?** (UK in a changing Europe)

**Nostalgia imperialaidd 'Ynys Fach'** (UK in a changing Europe)

**Brexit a'r ifanc** (UK in a changing Europe)

**Sicrhau cyflenwad meddyginiaethau dros y cownter a dyfeisiau meddygol yn y dyfodol wrth i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd** (UK in a changing Europe)

**Gall Prydain fod yn gymdeithas fwy croesawgar i ymfudwyr** (LSE Brexit)

**Cicio'r bwced i lawr y ffordd i Norwy: mae Ardal Economaidd Ewrop ôl** (LSE Brexit)

**Beth yw'r agweddau cyfreithiol ar 'lenwi' yr Ail Siambr ag Arglwyddi sydd o blaid Brexit?** (LSE Brexit)

**Sut mae mwyafrifyddiaeth yn parhau yn strwythurau sefydliadau datganoledig y Deyrnas Unedig** (LSE Brexit)

**Ewropeiddio proses heddwch Gogledd Iwerddon, a sut mae Brexit yn bygwth y cyfan** (LSE Brexit)

**Unoliaethwr o blaid datganoli? Ni fydd Brexit yn hwyluso cymhlethdodau gwleidyddiaeth Cymru** (LSE Brexit)

**Sut gall y llywodraeth ddefnyddio cwotâu i feithrin dyfodol cynaliadwy ar gyfer pysgota yn y Deyrnas Unedig** (LSE Brexit)

**Ôl-stop y ffin yn Iwerddon: nifer o gwestiynau heb eu hateb a heriau economaidd sylweddol** (LSE Brexit)

**Brecwast Cyfandirol 9: Ai dim ond ymadael sy'n bosibl gyda Brexit? Polisi tramor Ewropeaidd a chydlynu diogelwch** (LSE Brexit)

**Camarwain Prydain: mae camgymeriadau Brexit yr Undeb Ewropeaidd yn niferus** (LSE Brexit)

**Gwrthod dawnsio i alaw Brexit: sut mae'r Undeb Ewropeaidd wedi camddehongli pleidlais Prydain i adael** (LSE Brexit)

**Mae Prydain yn parhau i wneud llanast o Brexit, ond nid yw'r Undeb Ewropeaidd yn ddilychwin, chwaith** (LSE Brexit)

**Sut bydd Brexit yn effeithio ar rôl yr Almaen yn yr Undeb Ewropeaidd** (LSE Brexit)

**Ei ddefnyddio, ei golli: beth oedd dinasyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd yn ei olygu i bobl ifanc ym Mhrydain?** (LSE Brexit)

**Effeithiau Brexit ar dwf a chwyddiant yn y Deyrnas Unedig** (LSE Brexit)

**Y tu allan i'r Farchnad Sengl, pa fath o fargen y gall sector gwasanaethau Prydain obeithio amdani?** (LSE Brexit)

Roedd pobl India eisiau i ni adael, ond mae pobl Ewrop eisiau i ni aros. Y tro hwn, dinasyddion Prydain fydd yn ysgwyddo'r holl gostau, bron â bod (LSE Brexit)

**Arfogi ffeministiaeth yn y ddadl ynghylch Brexit: sefydliadau menywod a'r angen am arlliwiau** (LSE Brexit)

**Dau enaid ym mynwes Ewrop: atyniadau EFTA i'r Deyrnas Unedig** - Carl Baudenbacher (cyn-lywydd llys EFTA) (LSE Brexit)